Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD IAU, 4 RHAGFYR 2014 | THURSDAY, 4 DECEMBER, 2014 |
| am 2.00 o'r gloch | at 2.00 p.m. |

**R H A G L E N**

**1. CYFLWYNIAD – PARC GWYDDONIAETH**

Cyflwyniad gan Mr I W Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen, Prifysgol Bangor.

**2. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 30 Medi, 2014 (Arbennig)
- 9 Hydref, 2014

**3. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog ynghylch unrhyw eitem o fusnes.

**4. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i ddiffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**7. YMATEB Y CYNGOR SIR I GAM CYNTAF YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO (PAC 1) HORIZON NUCLEAR POWER**

I ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy.

**8. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan Gynghorydd R.Ll. Jones i Arweinydd y Cyngor :-

" Mae ymgynghoriad Wylfa B bellach wedi cychwyn ac rydym ni, fel Cyngor Sir, wedi cael sawl cyfarfod gyda'r datblygwr yn egluro'r holl fanteision a ddaw i'r ynys hon yn ei sgil.

Er bod trigolion lleol eisiau swyddi, maent yn parhau i fod yn bryderus iawn am y risgiau a'r angen i edrych ar ôl y gwastraff y bydd gorsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn yn ei gynhyrchu. Er mwyn cael cydbwysedd, rwy'n gofyn am gael trefnu SEMINAR rhwng y Cyngor hwn a chynrychiolwyr sy'n gwrthwynebu'r cynnig i adeiladu Wylfa B ac yn gofyn i chi a'ch grŵp mwyafrifol gefnogi hyn. Mae angen i drigolion lleol gael llais yn yr ymgynghoriad hwn a chael eu briffio'n llawn. Hyd yma, ymddengys mai dim ond datblygwr tramor o'r Almaen, sydd bellach wedi tynnu allan, ac o Japan sydd wedi rhoi eu barn i ni. Nid oes yr un o'r gwledydd hyn eisiau adeiladu gorsafoedd niwclear yn eu gwledydd eu hunain."

## 9. <u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – YR AMSERLEN DDIWYGIEDIG</u>

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

## 10. <u>DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL-BLWYDDYN</u>

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.

## 11. <u>CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2015-16</u>

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.

## 12. <u>DYDDIAD CYFARFOD Y CYNGOR SIR - MAI, 2015</u>

I ystyried ail-drefnu dyddiad y cyfarfod o'r Cyngor Sir ar 7 Mai, 2015 o'r herwydd yr etholiad Seneddol.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 30 Medi 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Raymond Jones, Lewis Davies, R Dew, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, T Ll Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Richard Owain Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, P S Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynaliadwyedd),<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Dysgu Gydol Oes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Rheolwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Rheolwr Trawsnewid Corfforaethol a Llywodraethu Busnes (ET),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones a Nicola Roberts |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghlrydd T Victor Hughes

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU’R PRIF WEITHREDWR.**

Roedd y Cadeirydd yn hynod o falch o groesawu’r Cynghorydd Dafydd R. Thomas i’r Cyngor Sir yn dilyn ei salwch yn ddiweddar. Roedd y Cynghorydd Thomas yn dymuno diolch i’r Aelodau am eu dymuniadau da yn ystod ei salwch a’r gefnogaeth a gafodd ei deulu agos gan deulu a chyfeillion. Roedd hefyd yn dymuno diolch i Dîm Alaw yn Ysbyty Gwynedd am eu caredigrwydd yn ystod ei salwch.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad â’r Cynghorydd J. Arwel Roberts ar farwolaeth ei fam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Estynnodd ei gydymdeimlad hefyd i deulu Ben Calveley a laddwyd mewn damwain ffordd ger ei gartref yng Ngharmel, Llannerchymedd. Roedd Ben Calveley yn perthyn i'r Cynghorydd Nicola Roberts.

Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad hefyd â theulu Issac Nash sy'n parhau i fod ar goll yn dilyn cael ei sgubo i'r môr yn Aberffraw tra ar wyliau ar Ynys Môn.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd hefyd ag unrhyw aelod o'r Cyngor neu staff oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o'u parch.

Estynnodd yr Is-Gadeirydd longyfarchiadau i'r Cadeirydd ar gyhoeddi ei lyfr 'Cymru Fawr' yn ddiweddar.

## 3. DATGANIAD CYFRIFON 2013-14

Cyflwynwyd - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y Datganiad Cyfrifon 2013/2014 terfynol.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio bod y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2014 yn dilyn ystyried y Datganiad o Gyfrifon, wedi penderfynu argymell bod y Cyngor Sir yn derbyn ac yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon am 2013/2014.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro bod newidiadau bychan wedi eu gwneud i Dudalennau 43 a 70.

**PENDERFYNWYD cadarnhau derbyn Datganiad Cyfrifon 2013/2014.**

## 4. YMATEB I'R PAPUR GWYN AR AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad yn rhoi cefndir y Papur Gwyn ar Ddiwygio llywodraeth Leol. Nododd i Grŵp Tasg a Gorffen gael ei sefydlu ym mis Awst 2014 i drafod y goblygiadau i Fôn yn sgil cynigion y Llywodraeth yn dilyn anfon ymateb y Cyngor i argymhellion Comisiwn Williams ar yr achos dros ddiwygio'r gwasanaeth cyhoeddus. Roedd y Grŵp wedi cyfarfod ar ddau achlysur hyd yn hyn ac wedi sgriwtineiddio mewn manylder yr holl ddogfennau perthnasol, y cyflwyniadau a wnaed gan Uwch Swyddogion a hefyd y safbwyntiau oedd yn dod i'r amlwg yn y rhanbarth ac yn genedlaethol.

Cynhaliwyd Seminar i holl Aelodau'r Cyngor ar 18 Medi 2014 lle cafwyd gwybodaeth ynglŷn â Phapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ac i godi ymwybyddiaeth o'r prif faterion oedd i gael sylw o safbwynt Ynys Môn.

Rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion am y manteision a'r anfanteision o ddod yn Awdurdod fyddai'n mabwysiadu'r cynnig i uno yn gynnar.

Nododd Aelodau'r Cyngor Sir y prif faterion a ganlyn:-

- Nid oeddent wedi eu darbwyllo y byddai yna fanteision i unrhyw uno nac y byddai hynny'n datrys y toriadau ariannol gan awdurdodau lleol ar draws Cymru;
- Dylai safbwyntiau trigolion yr Ynys fod yn hollbwysig a dylid ystyried cynnal Refferendwm i gael safbwyntiau'r etholwyr o safbwynt yr uno arfaethedig gydag awdurdod cyfagos;
- Byddai goblygiadau cost anferthol i unrhyw uniad gwirfoddol;
- Goblygiadau o ran staff;
- Cynnydd posibl yn y Dreth Gyngor i breswylwyr Ynys Môn oherwydd yr uniad.

Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion yn yr adroddiad gan gymeradwyo 7.1 i 7.4.

O safbwynt yr argymhelliad ynghylch a ddylid uno'n wirfoddol gydag un neu fwy o awdurdodau, cymerwyd pleidlais wedi'i chofnodi dan ddarpariaethau rhan 4.1.18.5 y Cyfansoddiad.

Roedd y bleidlais a gofnodwyd fel a ganlyn:-

**I beidio â datgan diddordeb fel Awdurdod fyddai'n mabwysiadu neu yn uno'n gynnar:-**

Cynghorwyr R.A. Dew, Jeff M. Evans, Ann Griffith, John Griffith, D.R. Hughes, K.P. Hughes, T.Ll. Hughes, T.V. Hughes, Vaughan Hughes, W.I. Hughes, Llinos M. Huws, A.M. Jones, G.O. Jones, H.E. Jones, Raymond Jones, R.Ll. Jones, R. Meirion Jones, R.O. Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Alwyn Rowlands, D.R. Thomas, Ieuan Williams.

**CYFANSWM 25**

**Yn erbyn yr argymhelliad:-**

Cynghorydd P.S. Rogers **CYFANSWM 1**

**Atal Pleidlais:** **NEB**

**PENDERFYNWYD**

- **Gofyn am wybodaeth bellach gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael i'w hystyried gan y Cyngor hwn cyn penderfynu ar ei safiad mewn perthynas â'r cynigion i uno gydag Awdurdodau eraill ac yn arbennig i geisio mwy o eglurder o amgylch y cymhellion ariannol i ddod yn Awdurdod a fyddai'n mabwysiadu'n gynnar ac, i'r perwyl hwnnw, gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus gael ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor Llawn i drafod y materion hyn ar y cyfle cyntaf.**

- **Ei fod yn ei ymateb i'r gyfres o gwestiynau a godwyd yn y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol:-**

    - **Yn tynnu sylw at ei ymateb blaenorol i Adroddiad Comisiwn Williams oedd yn delio â'r rhan fwyaf o'r materion y gwahoddwyd yr ymgyngoreion i ymateb iddynt;**

**• Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad a luniwyd gan CLlLC ac a gyflwynwyd i Gyngor CLlLC ar 26 Medi, 2014.**

**• Bod y Cyngor yn awdurdodi Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i ddechrau trafodaethau ffurfiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i hyrwyddo buddiannau dinasyddion Ynys Môn, gyda sefydliadau partner, wrth i'r agenda ar gyfer diwygio ddatblygu ac i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r trafodaethau hyn fel bo'n briodol i'r Cyngor drwy'r Grŵp Tasg a Gorffen, y cyfarfodydd o'r Arweinyddion Grwpiau a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth o swyddogion gyda golwg ar wneud cyflwyniad ffurfiol i'r Cyngor i'w benderfynu cyn gweithredu ar unrhyw drafodaethau.**

**• Bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cael eu hawdurdodi i sefydlu strategaethau cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu cymunedol i gael safbwyntiau dinasyddion a chymunedau Ynys Môn cyn i'r Cyngor fabwysiadu ei safbwynt ar Ddiwygio Llywodraeth Leol a'i weithredu ar gyfer Ynys Môn.**

**• Bod y Cyngor, yn dilyn rhoddi ystyriaeth briodol i'r materion oedd wedi eu hamlinellu yn Adran 6 yr adroddiad, yn penderfynu peidio â datgan mynegiant o ddiddordeb mewn Awdurdod fyddai'n mabwysiadu nac yn uno'n gynnar, erbyn y dyddiad cau o 28 Tachwedd 2014.**

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 6. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – CYNLLUN DIRPRWYO (STRWYTHUR Y GWASANAETHAU TG)

Cyflwynwyd a derbyniwyd – adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Dew, Ann Griffith, John Griffith, Derlwyn Hughes, Kenneth Hughes, Trefor Ll. Hughes, Victor Hughes, W. T. Hughes, Aled M. Jones, Gwilym O. Jones, H. Eifion Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Peter S. Rogers, Alwyn Rowlands, Dafydd R. Thomas, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) (ar gyfer eitem 6)<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen (ar gyfer eitem 6)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llinos M. Huws, Carwyn Jones, R. Llewelyn Jones, Nicola Roberts |

**1. COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 8 Mai, 2014 (10:30 a.m.)
- 8 Mai, 2014 (Cyfarfod Blynyddol) (2:00 p.m.)
- 29 Gorffennaf, 2014 (Arbennig)

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Bydd cynrychiolwyr o Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymweld â Swyddfeydd y Cyngor yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Hydref.

•  Mae ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gynnal gan Horizon hyd 8 Rhagfyr 2014 ar ei gynlluniau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd.
•  Rhaid oedd llongyfarch pob un a oedd yn llwyddiannus mewn cystadlaethau yn Sioe Frenhinol Cymru (Gorffennaf), yr Eisteddfod Genedlaethol (Awst) a Sioe Ynys Môn (Awst).  Cyfeirir yn benodol at y Cynghorydd Llinos M. Huws ar lwyddiant y teulu yn y categori ar gyfer y gwartheg godro gorau yn Sioe Amaethyddol Môn.
•  Rydym am longyfarch pob un o ddisgyblion yr ysgolion uwchradd oedd yn llwyddiannus yn eu harholiadau'r Haf hwn ac i rai o blith staff y Cyngor a lwyddodd yn eu harholiadau proffesiynol.
•  Llongyfarchiadau i Iolo Hughes, Llanfechell, disgybl yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch sydd yn bencampwr rhedwyr mynydd Prydain a Gogledd Iwerddon o dan 20 oed, ac i holl aelodau Tîm Gemau'r Gymanwlad Cymru fu'n llwyddiannus yn creu record am fedalau a enillwyd gan dîm Cymru yn y Gemau yn Glasgow yn ystod yr haf.
•  Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Jim Evans a Mrs Evans ar ddathlu eu Priodas Aur.
•  Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Richard Owain Jones sydd hyd yn hyn wedi codi 12k tuag at achosion da lleol drwy feicio o Amlwch i Gaerdydd.
•  Nodwyd bod 2014 yn flwyddyn canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Talodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, yn ei gapasiti fel Pencampwr y Lluoedd Arfog deyrnged i rai oedd wedi brwydro ac wedi gwneud aberthau yn ystod y rhyfel gan grybwyll yn benodol yr unigolion o Ynys Môn a Chymru oedd wedi ennill bri yn ystod cyfnod y Rhyfel Mawr.  Cyfeiriodd hefyd at y cyfraniad a wnaed gan nifer o gynghorau cymuned tuag at y Gofeb yn Ypres yng Ngwlad Belg i rai o Gymru a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

•  Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal yng Nghaergybi ar 15 Hydref i goffau'r cysylltiad rhwng y dref a'r Iseldiroedd.

## 4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.2 Y CYFANSODDIAD

Ni dderbyniwyd yr un.

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd yr un.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD 2013/14

6.1  Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-

*Dirprwyo i'r Dirprwy Brif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio ar gyfer Perfformiad Corfforaethol, hawl i gwblhau a chyhoeddi'r cynllun llawn i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Hydref.*

6.2  Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn cynnwys Adroddiad Perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn am 2013-14.

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad gweledol lle'r oedd yn amlygu’r prif gasgliadau o’r dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn ystod 2013-17 yn erbyn cyfres o ddangosyddion cenedlaethol ac yn erbyn yr addewidion a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol pedair blynedd y Cyngor am 2013-17. Cyfeiriodd at y tri phrif faes gwasanaeth oedd yn ffurfio ffocws y gwelliant yn ystod y cyfnod mewn perthynas ag Addysg, Gwasanaethau Plant ac Oedolion a chrynhowyd sut yr oeddent wedi perfformio. Yn gyffredinol, roedd safiad yr Awdurdod yn 10fed allan o’r 22 Awdurdod yng Nghymru ar ddiwedd 2013/14 yn cynrychioli gwelliant yn ei sefyllfa yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ac yn nodi bod perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn symud tuag at i fyny a’i fod yn gallu bodloni un o brif amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru sef gallu arddangos gwelliant parhaus. Yr her yw cynnal y momentwm a chynyddu cyflymder y gwelliant.

Tynnodd y Deilydd Portffolio ar gyfer Perfformiad Corfforaethol sylw at faint y gwaith oedd y tu ôl i’r adroddiad. Siaradodd Aelodau’r Cyngor am yr adroddiad a thra roeddent yn cydnabod y gwelliannau a wnaed ar draws ystod o feysydd gwasanaeth, roeddent hefyd yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach i barhau i roi sylw i’r meysydd a nodwyd fel rhai sy’n tanberfformio er mwyn parhau gyda’r patrwm o wella.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol am 2013/14 i’w gyhoeddi erbyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref.**

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI’R TRYSORLYS 2013/14

7.1 Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2014 wedi penderfynu “derbyn yr adroddiad”.

7.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol am 2013/14.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith a derbyn yr Adolygiad Rheoli trysorlys Blynyddol am 2013/14.**

## 8. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - RHEOLAU GWEITHREFN Y CYNGOR A PHENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

8.1 I adrodd bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2014, wedi penderfynu fel a ganlyn:

*Argymell i’r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo’r newidiadau i’r Cyfansoddiad fel oedd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.*

8.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â’r uchod.

Cynigiodd y Cynghorydd Meirion Jones welliant, a chytunwyd arno, i eiriad Rheol Gweithdrefn y Cyngor 4.1.2.7 (i) i ddarllen “derbyn a chadarnhau’r rhestr o benodiadau i gyrff allanol nad oes yn rhaid iddynt fod yn Aelodau o’r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2.”. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) ei bod yn fodlon gyda’r gwelliant ac yn ei gefnogi. Cynigiodd y Cynghorydd Meirion Jones hefyd y byddai darllen Cyfansoddiad y Cyngor ar-lein yn haws pe gellid darparu cyswllt i adrannau unigol.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith gyda’r newid a gytunwyd i Reol Gweithdrefn 4.1.2.7. (i)**

## 9. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL – Y FLAENRAGLEN WAITH

9.1 Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*I argymell i’r Cyngor Sir -*

- *Bod y gwelliant arfaethedig i Rhan 4.2.12 y Cyfansoddiad fel y manylir arno yn yr atodiad i’r adroddiad yn cael ei gymeradwyo, a*
- *Bod y Swyddog Monitro’n cael ei hawdurdodi i ddiweddaru’r Cyfansoddiad yn unol â hynny.*

9.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ynglŷn â’r uchod.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

## 10. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL

10.1 Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith, yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn :-

*Argymell i’r Cyngor Sir :-*

- *Ei fod yn cymeradwyo’r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel oedd i’w gweld yn Atodiad 1 yr adroddiad.*
- *Y bydd Is-Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei sefydlu i’r pwrpas o wrando apeliadau o dan y Rheoliadau.*
- *Pan fo Aelod yn cymryd absenoldeb teuluol o dan y Rheoliadau, ac yn derbyn uwch gyflog, ni fydd yr uwch gyflog hwn yn cael ei dalu yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb teuluol sydd yn fwy na phythefnos. Yn unol â’r Rheoliadau, mae Aelodau yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn eu lwfans sylfaenol. Gellir penodi dirprwy i lanw dros yr Aelod ar absenoldeb teuluol cyn belled ag y bo’r cyfnod o absenoldeb yn parhau am fwy na phythefnos, a bydd gan y dirprwy hawl i dderbyn uwch gyflog lle bo’n briodol.*
- *Y rhoddir awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor i’r Prif Weithredwr i ganslo neu i ddiweddu cyfnod o absenoldeb teuluol nad yw yn dod o dan y Rheoliadau.*

10.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) yng nghyswllt yr uchod.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith yn hyn o beth.**

## 11. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD - MYNYCHU O BELL

11.1 Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*Argymell i'r Cyngor Sir :-*

- *Ei fod yn nodi'r adroddiad a'r disgresiwn a ddarperir yn Adran 4 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.*
- *Ei fod yn gwrthod y defnydd o drefniadau mynychu o bell ar hyn o bryd.*

11.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yng nghyswllt yr uchod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ann Griffith at yr angen i annog mwy o bobl yn cynnwys unigolion o oed gweithio, i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd er mwyn hyrwyddo a sicrhau democratiaeth iach ac amrywiol. Byddai cyflwyno cyfleusterau mynychu o bell yn helpu yn hyn o beth. Dywedodd ei bod yn credu ei fod yn bwysig bod y Cyngor yn cefnogi'r fenter hon mewn egwyddor er mwyn ei gwneud yn haws i unigolion, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yntau hefyd yn gefnogol i'r syniad o fynychu o bell mewn egwyddor, ond bod yr adroddiad yn cyfeirio at y goblygiadau technegol ac adnoddau o gyflwyno'r cyfleuster hwn ar hyn o bryd. Mae hwn yn fater y gellir ail-ymweld ag ef wrth i'r gofynion a'r gallu i gyfarfod â hwy ddod yn fwy eglur.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith yn yr achos hwn.**

## 12. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - FFRAMWAITH POLISI

12.1 Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*"Argymell i'r Cyngor llawn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad".*

12.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r uchod.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

## 13. NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL - RHEOLAU SEFYDLOG

13.1 Adrodd bod y Pwyllgor Gwaith yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*Argymell i'r Cyngor llawn :-*

- *Ei fod yn nodi cynnwys y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Diwygiad) (Cymru) 2014 (“Rheoliadau 2014”).*
- *Ei fod yn Cyfarwyddo’r Swyddog Monitro i ddiwygio’r Cyfansoddiad i adlewyrchu’r newidiadau sydd raid wrthynt er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn gyson â Rheoliadau 2014 fel y manylir ar y rheini yn yr adroddiad. Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud newidiadau i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)(Cymru) 2006 (“Rheoliadau 2006) o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.*

13.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ynglŷn â’r uchod.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith.**

## 14. AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR

14.1 Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn ystyried yr uchod yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2014 wedi penderfynu fel a ganlyn:

*“Argymell i’r Cyngor bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn paratoi cynigion o 2015 ymlaen yn cynnwys opsiynau i gynnal cyfarfodydd ar ddyddiau penodol o’r wythnos, a bod cynrychiolydd ar gyfer pob grŵp yn helpu gyda’r broses hon”.*

14.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yng nghyswllt yr uchod.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt yr uchod.**

**Y Cynghorydd Vaughan Hughes**
**Cadeirydd**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# *NOT FOR PUBLICATION*

***Ymateb CSYM i Gam Cyntaf Ymgynghoriad Horizon Nuclear Power cyn Cyflwyno Cais Cynllunio (PAC 1)***
***IACC's Response to Horizon Nuclear Power's First Stage Pre-Application Consultation (PAC 1)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
***PUBLIC INTEREST TEST***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>*Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972* | |
| Y PRAWF – *THE TEST* | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-*<br><br>Tryloywder o ran prosesau gwneud penderfyniad y Cyngor.<br><br>Transparency in the Council's decision making processes. | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-*<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys ymateb arfaethedig y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y cais datblygu mwyaf sylweddol ar Ynys Môn am genhedlaeth.<br><br>Nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle hyd yn hyn i ystyried yr ymateb drafft, a byddai ei ddatgelu yn awr yn:<br><br>- Rhagfarnu ein gallu i gynnal materion cyhoeddus mewn ffordd effeithiol;<br>- Yn datgelu cyfathrebiadau mewnol rhwng swyddogion ac aelodau;<br>- Yn datgelu dogfennau drafft sydd i'w datgelu yn fuan yn eu ffurf derfynol.<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o ganiatáu i'r Cyngor yr amser i feddwl ac ymarfer ei brosesau democrataidd cyn datgelu fersiwn derfynol yr adroddiad.<br><br>Pe câi adroddiad drafft ei ddatgelu fe all ragfarnu'r broses o gyfnewid safbwyntiau'n rhydd a didwyll rhwng aelodau ac / neu swyddogion ar y cynigion datblygu.<br><br>Mae ffurfio ymateb yn broses sy'n parhau ac nad ydyw hyd yn hyn wedi'i chwblhau.<br><br>*The report contains the Council's proposed consultation response on the most significant* |

| | |
|---|---|
| | *development proposal on Anglesey for a generation.*<br><br>*Members have not yet had a chance to consider the draft response, and to disclose it now would be to:*<br><br>- *prejudice the effective conduct of public affairs;*<br>- *disclose internal communications between officers and members;*<br>- *disclose draft documents which are to be disclosed in final form imminently.*<br><br>*There is public interest in allowing the Council the thinking time to exercise its democratic processes prior to disclosing the final version of the report.*<br><br>*If the draft report is disclosed, it may inhibit the free and frank exchange of views between members and / or officers on the development proposal.*<br><br>*The formulation of the response is an ongoing process which is not yet complete.* |

Argymhelliad: Mae'r budd cyhoeddus o gadw'r eithriad yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.

*Recommendation: The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor** |
| **Dyddiad:** | **4 Rhagfyr 2014** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – yr Amserlen Ddiwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng John Arwel Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Jim Woodcock, Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Nia Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi)**<br>**01286 67980**<br>**niahafdavies@gwynedd.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae cyfres o seminarau i Aelodau wedi cael eu cynnal ers cychwyn y broses o baratoi'r Cynllun. Fe wnaeth y cyfarfod diwethaf roi gwybodaeth am yr amserlen ddiwygiedig.** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (gweler yn **Atodiad 1)** er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a chydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.

(Mae adroddiad tebyg yn mynd i Gyngor Gwynedd ar 4 Rhagfyr 2014)

**Rheswm**

1. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cydweithio i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.

2. Bydd yr Aelodau'n cofio bod Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y bydd y Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cafodd y Cytundeb Cyflawni presennol ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013 ac yna ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Am nifer o resymau du hwnt i reolaeth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, bu angen mwy o amser i baratoi'r fersiwn Adnau o'r Cynllun. Nodwyd y rhesymau am y llithriad a'r amserlen ddiwygiedig mewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2014. Mae'r canlynol yn rhoi dolen i'r adroddiad

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_pwyllgorau.asp?cat=8496&doc=31593&Language=2. Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd argymell bod camau'n cael eu cymryd i gael cymeradwyaeth y ddau Gyngor o'r amserlen ddiwygiedig a welir yn **Atodiad 1.** Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith ystyried yr amserlen ddiwygiedig yn ei gyfarfod ar 1af Rhagfyr 2014.

3. Ar ôl i'r Cynghorau gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig fe gaiff y Cytundeb Cyflawni ei ddiwygio yn unol â hynny a'i yrru i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth. Yna fe gaiff y Cytundeb Cyflawni diwygiedig a llythyr Llywodraeth Cymru ei roi yn swyddfeydd y Cynghorau ac ar wefan y ddau Gyngor.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor?** |
|---|
| Mae'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol yn dweud bod angen cymeradwyaeth gan y Cyngor cyn cyflwyno'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydy, mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cael ei gynnwys ym mhroffil gwariant yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn gallu cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** | Mae Cyllid yn fodlon i'r adroddiad yma |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | fynd yn ei flaen |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 6 | **Eiddo** | |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1: Yr amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| i. Cytundeb Cyflawni (2014)<br>ii. Adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (26/9/14)<br>iii. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith (1/12/14) |

**ATODIAD 1 Amserlen ddiwygiedig paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

| **Cam yn y broses paratoi** | | **Amserlen gyfredol** | **Amserlen ddiwygiedig** |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 –Hydref 2012 | Ionawr 2011 –Hydref 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Mai – Mehefin 2013 | Mai – Mehefin 2013 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau | Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014 | Gorffennaf 2013 - **Rhagfyr 2014** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyn-adneuo | | |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Mai – Mehefin 2014 | **Chwefror – Mawrth 2015** |
| | Amserlen ddangosol | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Gorffennaf 2014 – Ionawr 2015 | **Ebrill 2015 – Tachwedd 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Medi – Hydref 2014 | **Mehefin - Gorffennaf 2015** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Chwefror 2015 | **Rhagfyr 2015** |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Mehefin 2015 | **Ebrill 2016** |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Mawrth 2016 | **Hydref 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Mai 2016 | **Rhagfyr 2016** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH & CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **1 RHAGFYR 2014 & 4 RHAGFYR 2014** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL: ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN 2014/15** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@anglesey.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Ystyried cynnwys yr adroddiad, ac i gyfeirio'r adroddiad ymlaen i gyfarfod nesaf y Cyngor Sir gydag unrhyw sylwadau.
- Adolygu'r adroddiad er mwyn bod yn gyson â chanllawiau proffesiynol ac er mwyn cydymffurfio gydag argymhellion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.
- Yn ei gyfarfod ar 7fed o Dachwedd 2014, sgriwtineiwyd yr adroddiad yma gan y Pwyllgor Archwilio ac fe'i pasiwyd ymlaen i'w adolygu gan y Pwyllgor yma gyda dim rhagor o sylwadau.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Er mwyn cydymffurfio â'r cynllun dirprwyo, fel nodwyd yn y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2014.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Yndi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

d/b

| | DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ni chodwyd unrhyw fater |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ni chodwyd unrhyw fater |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| | E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - | Atodiadau: |
|---|---|
| | Atodiad 1 - Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2014/15<br>Atodiad 2 - Perfformiad Economaidd hyd yma a'r rhagolygiad<br>Atodiad 3 - Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog<br>Atodiad 4 - Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2014/15<br>Atodiad 5 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2014<br>Atodiad 6 - Graddfeydd Credyd Cyfatebol (Fitch, Moodys, S & P) |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| | • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2014/15 gan y Cyngor hwn ar 27 Chwefror 2014<br>• Adroddiad Rheoli'r Trysorlys – Chwarter Cyntaf 2014/15 |

## 1. Cefndir

**1.1** Dau o ofynion Côd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys (a ddiwygiwyd yn 2011) yw bod y Cyngor llawn yn cael adroddiad adolygu canol blwyddyn ar weithgareddau rheoli trysorlys a dirprwyo'r gwaith o sgriwtineiddio strategaethau a pholisïau rheoli trysorlys. Bydd yr adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofynion hyn ac yn rhoi sylw i'r isod:

- Diweddariad economaidd am y chwe mis cyntaf, gan edrych ymlaen hefyd i ail hanner 2014/15;
- Adolygiad o'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor (dangosyddion darbodus);
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2014/15;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2014/15;
- Adolygiad o unrhyw ad-drefnu dyled a ddigwyddodd yn ystod 2014/15;
- Crynodeb o weithgareddau ers chwarter 2;
- Edrych ymlaen i'r flwyddyn nesaf; ac
- Adolygiad o gydymffurfiaeth gyda Therfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2014/15.

## 2. Diweddariad Economaidd

**2.1** Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor wedi paratoi crynodeb ychydig ar ôl diwedd y chwarter cyntaf o'r perfformiad economaidd hyd yma a'r rhagolygon, gweler Atodiad 2. Hefyd maent wedi darparu'r rhagolygon isod.

| | Rhag 2014 | Maw 2015 | Meh 2015 | Medi 2015 | Rhag 2015 | Maw 2016 | Meh 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Banc(%)** | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 |
| **Cyfradd 5 mlynedd PWLB(%)** | 2.50 | 2.70 | 2.70 | 2.80 | 2.90 | 3.00 | 3.10 |
| **Cyfradd 10 mlynedd PWLB(%)** | 3.20 | 3.40 | 3.50 | 3.60 | 3.70 | 3.80 | 3.90 |
| **Cyfradd 25 mlynedd PWLB(%)** | 3.90 | 4.00 | 4.10 | 4.30 | 4.40 | 4.50 | 4.60 |
| **Cyfradd 50 mlynedd PWLB(%)** | 3.90 | 4.00 | 4.10 | 4.30 | 4.40 | 4.50 | 4.60 |

**2.2** Yn ddiweddar cafwyd sylwadau gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor mewn perthynas â'r rhagolygon ar gyfer y graddfeydd llog uchod. Gweler y sylwadau hyn yn Atodiad 3.

## 3. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a Diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**3.1** Cymeradwywyd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2014/15 gan y Cyngor hwn ar 27 Chwefror 2014. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r DSRhT; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yn wyneb y sefyllfa economaidd ddiweddaraf.

## 4. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Pwyllog)

**4.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro i ddiweddaru:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion pwyllog a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfiaeth gyda'r terfynau sydd wedi eu sefydlu ar gyfer gweithgareddau benthyca.
- Diwygio CRT

### 4.2 Dangosydd Pwyllog ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf a'r newidiadau ers cytuno ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer y Gyllideb.

| Gwariant Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2014/15 £m | Y sefyllfa ar 30 Medi 2014 £m | Amcangyfrif Cyfredol 2014/15 £m |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 18,100 | 4,701 | 15,010 |
| CRT | 5,700 | 1,569 | 6,000 |
| Cyfanswm | 23,800 | 6,270 | 21,010 |

**4.2.1** Mae'r amcangyfrif cyfredol ar gyfer gwariant cyfalaf is o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol yn bennaf oherwydd tynnu allan eitemau wrth gefn nad ydynt bellach yn rhan o'r strategaeth gyfalaf.

**4.3 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf**

**4.3.1** Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i gyllido'r rhaglen gyfalaf i adrodd yr adeg yma.

**4.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Pwyllog ar gyfer y Gofynion Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol**

**4.4.1** Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca i bwrpas cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa o ran dyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Yr enw ar hyn yw'r Terfyn Gweithredol.

**4.4.2 Dangosydd Pwyllog – Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

**4.4.2.1** Rhagwelir y byddwn ychydig ar y blaen o ran y gofyniad cyllido gwreiddiol a ragamcanwyd ar gyfer cyllid.

**4.4.2.2** Mae'r ffigwr Benthyca ar gyfer y Ddyled Allanol/y Terfyn Gweithredol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddwn yn parhau i fewnoli ein benthyca.

**4.4.3 Dangosydd Pwyllog – Dyled Allanol / y Terfyn Gweithredol**

| | Amcangyfrif Gwreiddiol 2014/15 £m | Amcangyfrif Cyfredol 2014/15 £m |
|---|---|---|
| ***Dangosydd Pwyllog – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 92,400 | 83,226 |
| GCC – CRT | 23,000 | 24,723 |
| Cyfanswm GCC | 115,400 | 107,949 |
| Symudiad net yn y GCC | 5,057 | 1,534 |
| ***Dangosydd Pwyllog – Dyled Allanol/Terfyn Gweithredol*** | | |
| Benthyca | 120,000 | 89,583 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | Nil |
| Cyfanswm Dyled 31 Mawrth | 122,000 | 89,583 |

**4.5 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthyca**

**4.5.1** Yr elfen gyntaf allweddol o reolaeth dros y gweithgareddau trysorlys yw dangosydd pwyllog i sicrhau na fydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau), dros y tymor canol, ond yn cael ei wneud i ddiben cyfalaf. Ni ddylai benthyciadau allanol net, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn uwch na'r cyfanswm GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2014/15 a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi o fenthyca cyn i'r angen godi a glynir wrth y polisi hwnnw os gwelir bod hynny'n ddoeth.

| | Amcangyfrif Gwreiddiol 2014/15 £m | Y sefyllfa ar 30 Medi 2014 £m |
|---|---|---|
| Benthyca gros | 115,400 | 89,587 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | Dim | Dim |
| Benthyca gros | 115,400 | 89,587 |
| GCC (sefyllfa diwedd y flwyddyn) | 115,400 | d/b |

**4.5.2** Erbyn diwedd y flwyddyn, rhagwelir bydd y GCC yn £108m, ac, o ganlyniad, mae gofyn i fenthyca £18m. Dywed y datganiad strategaeth rheoli'r trysorlys (Adran 3.4.1) y bydd agwedd hyblyg yn cael ei mabwysiadu mewn perthynas â'r dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Parheir i ddilyn y dull hwnnw o weithredu a rhoddir sylw i'r holl ffactorau a restrir yn yr adran honno. Mae'r penderfyniad i barhau i fewnoli wedi ei yrru'n bennaf gan 2 ffactor: (1) cyfyngu risg credyd i'r awdurdod (2) cyfyngu cost cario. Mae hyn yn erbyn cefndir o gyfraddau buddsoddi a chyfraddau PWLB sy'n parhau i fod yn hanesyddol o isel, gyda dim ond cynnydd graddol yn cael ei ragweld i'r tymor canol. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â'r hyn a wneir gan lawer o awdurdodau lleol eraill a holwyd mewn seminarau a gweithdai y bu swyddogion cyllid yn bresennol ynddynt. Mae'r ymgynghorwyr a benodwyd ar gyfer y trysorlys hefyd wedi cefnogi'r penderfyniad i barhau i fenthyca'n fewnol ar hyn o bryd. Erbyn diwedd y flwyddyn rhagwelir y bydd benthyca allanol yn £89.583m. Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau i'r dull cyfredol o weithredu fel sy'n briodol.

**4.5.3** Ni ragwelir anawsterau ar gyfer eleni o ran cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

**4.5.4** Mae dangosydd pwyllog arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthyca. Hwn yw'r terfyn awdurdodedig na chaniateir benthyca y tu draw iddo. Mae angen i Aelodau osod a diwygio'r terfyn hwn. Mae'n adlewyrchu lefel y benthyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw'n ddymunol, ond sydd ddim yn gynaliadwy yn y tymor hir. Hwn yw'r uchafswm benthyca gyda rhywfaint o ddarpariaeth wrth gefn ar gyfer symudiadau annisgwyl. Hwn yw'r terfyn statudol a benderfynir dan Adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

| Terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol | Dangosydd Gwreiddiol 2014/15 (£m) | Y sefyllfa ar 30 Medi 2014 (£m) |
|---|---|---|
| Benthyca | 125,000 | 89,587 |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | 2,000 | Nil |
| Cyfanswm | 127,000 | 89,587 |

### 4.6 Diwygio CRT

**4.6.1** Disgwylir y bydd y trefniadau cymhorthdal CRT yn cael eu diwygio ar 31 Mawrth 2015. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn talu arian i Lywodraeth Cymru a hynny yn ei dro, yn tynnu'r Cyngor o'r system gymhorthdal CRT. Y taliad a amcangyfrifir yw £23.9m. Bydd hyn yn cael effaith ar strwythur cyfalaf y Cyngor (oherwydd bydd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf CRT yn codi gan faint y taliad gan Lywodraeth Cymru), a bydd angen i'r gwasanaeth rheoli trysorlys ystyried goblygiadau cyllido'r benthyciad.

## 5. Portffolio Buddsoddi 2014/15

**5.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a chael dychweliad priodol, o'i gydbwyso yn erbyn y risg gysylltiedig. Fel sydd wedi ei nodi yn Adran 2, mae'r farchnad fuddsoddi'n anodd iawn o ran denu'r cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin yn y degawdau a fu oherwydd bod cyfraddau'n isel iawn ac yn gyson â Chyfradd Banc 0.5%. Yn wir, mae cyflwyno'r cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca wedi gostwng cyfraddau buddsoddi yn y farchnad ymhellach. Mae'r posibilrwydd o ymestyn yr argyfwng dyled sofran ym mharth yr Ewro a'i effaith bosib ar fanciau yn annog strategaeth risg isel a thymor byr. O gofio'r hinsawdd yma o risg, mae dychweliadau ar fuddsoddiadau yn debygol o barhau i fod yn isel.

**5.2** Roedd gan y Cyngor £18.6m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2014 (£9.2m ar 31 Mawrth 2014) a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn yw 0.39%. Gellir gweld rhestr lawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2014 yn Atodiad 5. Gellir gweld crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau yn Atodiad 4.

**5.3** Ni aethpwyd dros ben y terfynau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwe mis cyntaf 2014/15.

**5.4** Swm y dychweliad y mae'r Cyngor wedi cyllidebu ar ei gyfer o ran buddsoddiad am 2014/15 yw £0.3m. Fel nodwyd yn y strategaeth, mae rhywfaint o'r benthyca wedi cael ei fewnoli yn ystod y flwyddyn ac felly mae'r dychweliadau o'r buddsoddiadau a ragwelir yn is na'r rheini y cyllidebwyd ar eu cyfer. Fodd bynnag, bu modd gwneud arbedion o ran llog ar fenthyciadau ac mae'r canlyniad net a ragwelir o fewn y gyllideb.

**5.5 Meini prawf gwrthbartïon buddsoddi**

**5.5.1** Mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi ac a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofynion y swyddogaeth rheoli trysorlys er ei bod yn mynd yn anoddach i fuddsoddi arian gan fod yr ansawdd credyd yn parhau i leihau.

## 6. Benthyca

**6.1** Gofyniad cyllido cyfalaf (GCC) y Cyngor a ragwelir ar gyfer 2014/15 yw £1.5m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca i bwrpas cyfalaf. Os yw'r GCC yn gadarnhaol, gall y Cyngor fenthyca gan PWLB neu gan y farchnad (benthyca allanol) neu o'r balansau mewnol am gyfnod dros dro (benthyca mewnol). Mae'r cydbwysedd rhwng benthyca allanol a mewnol fel arfer yn cael ei ddylanwadu gan amgylchiadau'r farchnad. Mae'r Cyngor wedi rhagweld benthyca diwedd y flwyddyn ariannol o £89.6m ac wedi defnyddio £18m o gyllid llif arian yn lle benthyca. Mae hyn yn ffordd ddoeth a chost-effeithiol o weithredu yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ond bydd angen parhau i fonitro rhag ofn y bydd yr elw o giltiau yn well na'r disgwyl.

**6.2** Ceir crynodeb o'r sefyllfa benthyca yn Atodiad 4.

## 7. Ad-drefnu Dyledion

**7.1** Ni wnaed unrhyw waith ad-drefnu dyledion yn ystod y chwe mis cyntaf 2014/15.

## 8. Gweithgareddau ers Chwarter Dau

**8.1** Nid oes unrhyw newidiadau ers Chwarter 2.

## 9. Cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesa

**9.1** Yn ei gyfarfod yn Chwefror, bydd y Pwyllgor yma yn ystyried y cynlluniau ar gyfer benthyca a buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ôl y strategaeth cyllideb refeniw cyfredol, y cynlluniau cychwynnol yw:-

- i ddefnyddio'r dyraniad benthyca gyda chefnogaeth cyffredinol sydd ar gael o £2.189m (£2.193m yn 2014/15) ynghyd ag unrhyw ddyraniad y flwyddyn gyfredol sydd heb ei ddefnyddio;
- i fenthyca, ar sail ddi-gefnogaeth, i gyllido blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf, gan gysylltu i mewn i'r amcanion trawsnewid.

**RICHARD MICKLEWRIGHT**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**A SWYDDOG ADRAN 151 DROS DRO** **31 HYDREF 2014**

**Perfformiad Economaidd hyd yma a'r rhagolygiad/ Economic performance to date and outlook**

## 1.1 U.K.

After strong UK GDP quarterly growth of 0.7%, 0.8% and 0.7% in quarters 2, 3 and 4 respectively in 2013, (2013 annual rate 2.7%), and 0.7% in Q1, 0.9% in Q2 and a first estimate of 0.7% in Q3 2014 (annual rate 3.1% in Q3), it appears very likely that strong growth will continue through 2014 and into 2015 as forward surveys for the services and construction sectors, are very encouraging and business investment is also strongly recovering. The manufacturing sector has also been encouraging though the latest figures indicate a weakening in the future trend rate of growth. However, for this recovery to become more balanced and sustainable in the longer term, the recovery needs to move away from dependence on consumer expenditure and the housing market to exporting, and particularly of manufactured goods, both of which need to substantially improve on their recent lacklustre performance. This overall strong growth has resulted in unemployment falling much faster through the initial threshold of 7%, set by the Monetary Policy Committee (MPC) last August, before it said it would consider any increases in Bank Rate. The MPC has, therefore, subsequently broadened its forward guidance by adopting five qualitative principles and looking at a much wider range of about eighteen indicators in order to form a view on how much slack there is in the economy and how quickly slack is being used up. The MPC is particularly concerned that the current squeeze on the disposable incomes of consumers should be reversed by wage inflation rising back above the level of inflation in order to ensure that the recovery will be sustainable. There also needs to be a major improvement in labour productivity, which has languished at dismal levels since 2008, to support increases in pay rates. Most economic forecasters are expecting growth to peak in 2014 and then to ease off a little, though still remaining strong, in 2015 and 2016. Unemployment is therefore expected to keep on its downward trend and this is likely to eventually feed through into a return to significant increases in pay rates at some point during the next three years. However, just how much those future increases in pay rates will counteract the depressive effect of increases in Bank Rate on consumer confidence, the rate of growth in consumer expenditure and the buoyancy of the housing market, are areas that will need to be kept under regular review.

Also encouraging has been the sharp fall in inflation (CPI), reaching 1.2% in September, the lowest rate since 2009. Forward indications are that inflation is likely to fall further in 2014 to possibly 1%. Overall, markets are expecting that the MPC will be cautious in raising Bank Rate as it will want to protect heavily indebted consumers from too early an increase in Bank Rate at a time when inflationary pressures are also weak. A first increase in Bank Rate is therefore expected in Q2 2015 and they expect increases after that to be at a slow pace to lower levels than prevailed before 2008 as increases in Bank Rate will have a much bigger effect on heavily indebted consumers than they did before 2008.

The return to strong growth has also helped lower forecasts for the increase in Government debt by £73bn over the next five years, as announced in the 2013 Autumn Statement, and by an additional £24bn, as announced in the March 2014 Budget - which also forecast a return to a significant budget surplus, (of £5bn), in 2018-19. However, monthly public sector deficit figures have disappointed so far in 2014/15.

## 1.2 U.S.

In September, the Federal Reserve continued with its monthly $10bn reductions in asset purchases, which started in December 2013. Asset purchases have now fallen from $85bn to $15bn and are expected to stop on 29th October 2014, providing the economic outlook remains strong. First quarter GDP figures for the US were depressed by exceptionally bad winter weather, but growth rebounded very strongly in Q2 to 4.6% (annualised).

The U.S. faces similar debt problems to those of the UK, but thanks to reasonable growth, cuts in government expenditure and tax rises, the annual government deficit has been halved from its peak without appearing to do too much damage to growth, although the weak labour force participation rate remains a matter of key concern for the Federal Reserve when considering the amount of slack in the economy and monetary policy decisions.

## 1.3 Eurozone

The Eurozone is facing an increasing threat from weak or negative growth and from deflation. In September, the inflation rate fell further, to reach a low of 0.3%. However, this is an average for all EZ countries and includes some countries with negative rates of inflation. Accordingly, the ECB took some rather limited action in June to loosen monetary policy in order to promote growth. In September it took further action to cut its benchmark rate to only 0.05%, its deposit rate to -0.2% and to start a programme of purchases of corporate debt. However, it has not embarked yet on full quantitative easing (purchase of sovereign debt).

Concern in financial markets for the Eurozone subsided considerably during 2013. However, sovereign debt difficulties have not gone away and major issues could return in respect of any countries that do not dynamically address fundamental issues of low growth, international uncompetitiveness and the need for overdue reforms of the economy, (as Ireland has done). It is, therefore, possible over the next few years that levels of government debt to GDP ratios could continue to rise for some countries. This could mean that sovereign debt concerns have not disappeared but, rather, have only been postponed.

## 1.4 China and Japan

Japan is causing considerable concern as the increase in sales tax in April has suppressed consumer expenditure and growth. In Q2 growth was -1.8% q/q and -7.1% over the previous year. The Government is hoping that this is a temporary blip.

As for China, Government action in 2014 to stimulate the economy appeared to be putting the target of 7.5% growth within achievable reach but recent data has raised fresh concerns. There are also major concerns as to the creditworthiness of much bank lending to corporates and local government during the post 2008 credit expansion period and whether the bursting of a bubble in housing prices is drawing nearer.

**Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog/Commentary on the latest interest rates forecasts**

The Council's treasury advisers undertook a review of its interest rate forecasts on 24 October. During September and October, a further rise in geopolitical concerns, principally over Ukraine but also over the Middle East, plus fears around Ebola and an accumulation of dismal growth news in most of the ten largest economies of the world and also on the growing risk of deflation in the Eurozone, had sparked a flight from equities into safe havens like gilts and depressed PWLB rates. However, there is much volatility in rates as news ebbs and flows in negative or positive ways. This latest forecast includes a first increase in Bank Rate in quarter 2 of 2015.

Our PWLB forecasts are based around a balance of risks. However, there are potential upside risks, especially for longer term PWLB rates, as follows: -

- A further surge in investor confidence that robust world economic growth is firmly expected, causing a flow of funds out of bonds and into equities.
- UK inflation being significantly higher than in the wider EU and US, causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.

Downside risks currently include:-

- The situation over Ukraine poses a major threat to EZ and world growth if it was to deteriorate into economic warfare between the West and Russia where Russia resorted to using its control over gas supplies to Europe.
- Fears generated by the potential impact of Ebola around the world
- UK strong economic growth is currently mainly dependent on consumer spending and the potentially unsustainable boom in the housing market. The boost from these sources is likely to fade after 2014.
- A weak rebalancing of UK growth to exporting and business investment causing a weakening of overall economic growth beyond 2014.
- Weak growth or recession in the UK's main trading partner - the EU, inhibiting economic recovery in the UK.
- A return to weak economic growth in the US, UK and China causing major disappointment in investor and market expectations.
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis caused by ongoing deterioration in government debt to GDP ratios to the point where financial markets lose confidence in the financial viability of one or more countries and in the ability of the ECB and Eurozone governments to deal with the potential size of the crisis.
- Recapitalisation of European banks requiring more government financial support.
- Lack of support by populaces in Eurozone countries for austerity programmes, especially in countries with very high unemployment rates e.g. Greece and Spain, which face huge challenges in engineering economic growth to correct their budget deficits on a sustainable basis.
- Italy: the political situation has improved but it remains to be seen whether the new government is able to deliver the austerity programme required and a programme of overdue reforms. Italy has the third highest government debt mountain in the world.
- France: after being elected on an anti austerity platform, President Hollande has embraced a €50bn programme of public sector cuts over the next three years. However, there could be major obstacles in implementing this programme. Major overdue reforms of employment practices and an increase in competiveness are also urgently required to lift the economy out of stagnation.
- Monetary policy action failing to stimulate sustainable growth in western economies, especially the Eurozone and Japan.
- Heightened political risks in the Middle East and East Asia could trigger safe haven flows back into bonds.

There are also increasing concerns at the reluctance of western central banks to raise interest rates significantly for some years, plus the huge QE measures which remain in place (and may be added to by the ECB in the near future). This has created potentially unstable flows of liquidity searching for yield and, therefore, heightened the potential for an increase in risks in order to get higher returns. This is a return to a similar environment to the one which led to the 2008 financial crisis.

**ATODIAD /**

**Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2014/15**
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2014/15**

| | 30 Medi / Sept 2014 | | 30 Mehefin / June 2014 | |
|---|---|---|---|---|
| | £m | % | £m | % |
| Benthyca – graddfa sefydlog<br>Borrowing – fixed rate | 89.6 | 5.72 | 89.6 | 5.72 |
| Benthyca – graddfa amrywiol<br>Borrowing – variable rate | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod<br>Deposits – Call to 30 days | 18.6 | 0.39 | 19.1 | 0.40 |
| Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl.<br>Deposits – Fixed Term < 1 year | 0.0 | nil | 0.0 | nil |
| Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. +<br>Deposits – Fixed Term 1 year + | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Cyfanswm Adneuon<br>Total Deposits | 18.6 | 0.39 | 19.1 | 0.40 |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Average Deposits in the Quarter | 21.2 | 0.43 | 20.3 | 0.50 |

Ni dorwyd unrhyw un o'r dangosyddion trysorlys yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.
None of the treasury indicators were breached during the first half of the year.

**ATODIAD / APPENDIX 5**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2014*
## Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2014*

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From / To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Ratin g | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **9,950** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis/ Blue - 12 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **703** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa3** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,499** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.40** | **A** | **F1** | **A2** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **470** | **Galw/ Call** | **n/a** | **0.25** | **A** | **F1** | **Baa1** | **P-2** | **A-** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |

* Ceir y Rhestr Benthyca Cymeradwyedig yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15/Strategaeth Buddsoddi Blynyddol/ The Approved Lending List can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

- Yn Atodiad 6 ceir y graddfeydd credyd cyfatebol ar gyfer y 3 asiantaeth graddio y cyfeirir atynt uchod./The equivalent credit ratings for the 3 rating agencies referred to above can be found at Appendix 5.

## Graddfeydd Credyd Cyfatebol/ Equivalent Credit Ratings (Fitch, Moodys, S&P)

| **Tymor Hir<br>Fitch<br>Long Term** | **Tymor Hir<br>Moodys<br>Long Term** | **Tymor Hir<br>S&P<br>Long Term** |
|---|---|---|
| AAA | Aaa | AAA |
| AA+ | Aa1 | AA+ |
| AA | Aa2 | AA |
| AA- | Aa3 | AA- |
| A+ | A1 | A+ |
| A | A2 | A |
| A- | A3 | A- |
| BBB+ | Baa1 | BBB+ |
| BBB | Baa2 | BBB |
| BBB- | Baa3 | BBB- |
| **Tymor Byr<br>Fitch<br>Short Term** | **Tymor Byr<br>Moodys<br>Short Term** | **Tymor Byr<br>S&P<br>Short Term** |
| F1+ | d/b / n/a | A-1+ |
| F1 | P-1 | A-1 |
| F2 | P-2 | A-2 |
| F3 | P-3 | A-3 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **1 RHAGFYR 2014** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES (DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (PENNAETH SWYDDOGAETH – ADNODDAU)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GERAINT H JONES (RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU)**<br>01248 752651<br>GHJFI@YNYSMON.GOV.UK |
| **AELODAU LLEOL:** | **DIM YN BERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (Cyngor llawn) yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 na ddylai'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gael ei adolygu na'i newid am gynllun arall.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 y dylid mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 ei fod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau i wneud trefniadau gweinyddol fel bod pob newid blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiad technegol mewn unrhyw reoliad/reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

**RHESYMAU A CEFNDIR**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Gweler yr adroddiad ynghlwm - **Atodiad A**

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae Rheoliadau yn nodi bod hyn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2015/16 y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo yn gyson â'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yng nghyswllt y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sydd mewn grym ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15.

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Yn Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro Llywodraeth Cymru 2015/16 mae Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o £5,228,000 wedi ei ddyfarnu i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2015/16.<br><br>Y gwariant cyfredol (diwedd Chwarter 2 2014/15 yw £5,238,447). Bydd dau ffactor yn 2015/16 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-<br><br>• Gostyngiad parhaol posibl mewn llwyth achos o rhwng 2% - 3% yn ystod 2015/16;<br>• Cynnydd a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor o 5% am 2015/16.<br><br>Ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,335,358 (gan dybio gostyngiad 3% mewn llwyth achos a 5% cynnydd yn y Dreth Gyngor) ac ar ei waethaf gwariant amcangyfrifiedig o £5,500,369 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).<br><br>Felly disgwylir diffyg a amcangyfrifir o rhwng £107k a £272k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb ei newid. |

| DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | Y brif risg i'r Cyngor yw costau ychwanegol ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor all fod yn uwch na grant Llywodraeth Cymru am 2015/16. Nid oes gan y Cyngor reolaeth ar newidiadau yn y llwyth achosion a phe bai yn cynyddu, bydd costau'r Cyngor hefyd yn cynyddu o ganlyniad. Byddai 1% o gynnydd yn y llwyth achos yn gosod pwn ychwanegol o rhwng 50,000 a 55,000 ar yr Awdurdod. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad i'r Cyngor llawn i'w ystyried 4 Rhagfyr 2014 |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder Bregrwusrwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013. |

**ATODIAD A**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **4 RHAGFYR 2014** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **RICHARD MICKLEWRIGHT**<br>**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **GERAINT JONES**<br>**RHEOLWR REFENIW A BUDD-DALIADAU (EST. 2651)** |
| **GWEITHREDU :** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2015/16** |

## 1. Pwrpas yr adroddiad

**1.1** Mae'r adroddiad yn egluro'r angen i fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2015 yng nghyswllt 2015/16.

## 2. Gwybodaeth Gefndirol

**2.1** Mabwysiadodd y Cyngor llawn ar 27 Ionawr 2014 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am flwyddyn ariannol 2014/15. Mae angen i'r Cyngor llawn ystyried, yn unol â Rhan 2, Rheoliad 18 o "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) Rheoliadau 2013 Rhif. 3029 (W.301) (y Rheoliadau) ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a ddylai adolygu ei gynllun neu ei ddisodli gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor arall. Rhaid i'r Cyngor llawn wneud unrhyw newid i'w gynllun, neu unrhyw gynllun newydd yn ei le, heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn yr un y bydd yn newid neu'r cynllun newydd yn dod i rym.

**2.2** Fe wnaeth y Cyngor llawn o dan y cynllun cyfredol fabwysiadu'r Rheoliadau yn ffurfiol fel ei gynllun a chan ddefnyddio'i bwerau dewisol fe benderfynodd ddefnyddio disgresiwn lleoli i fabwysiadu Cynllun Pensiwn Anabledd Rhyfel Lleol a Chynllun Dewisol Pensiwn Gweddwon Rhyfel yn unol â'r Rheoliadau. Fe welir manylion yn y cynllun cyfredol o'r elfennau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel incwm i bwrpas y disgresiwn lleol hwn. Mae hwn yn darparu cymorth Treth Gyngor ychwanegol at yr hyn y mae'n rhaid ei dalu'n statudol dan y Rheoliadau. Hwn yw'r unig ddisgresiwn lleol a roddir gan y Cyngor llawn dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Leol cyfredol.

**2.3** Rhaid i'r Cyngor llawn hefyd roi sylw i Reoliad 17 y Rheoliadau pan fydd yn adolygu neu'n newid cynllun. Os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu adolygu neu newid ei gynllun, rhaid iddo gyhoeddi cynllun drafft o'r adolygiad mewn ffordd y mae'n credu sy'n addas a rhaid iddo ymgynghori gyda phobl a fydd, yn ei dyb ef, â diddordeb yng ngweithrediad ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Nid oes, fodd bynnag unrhyw ofyniad i ymgynghori'n flynyddol, dim ond pan fydd cynllun yn cael ei adolygu neu ei newid y bydd yn rhaid cynnal ymgynghoriad.

**2.4** Am 2015/16, nid yw Llywodraeth Cymru yn adolygu nac yn newid y Rheoliadau, ond fel ar gyfer 2014/15, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau diwygiedig i uwchraddio'r ffigurau ariannol a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau technegol eraill fydd eu hangen o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau. Unwaith yn rhagor, yr un modd â 2014/15, bydd amseriad y rheoliadau diwygiedig hynny yn dibynnu ar Ddatganiad Hydref Canghellor y Trysorlys (3 Rhagfyr 2014) a'r atodlen uwchraddio ddilynol a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ychydig ddyddiau ar ôl Datganiad yr Hydref. Y dyddiad cynharaf y gall Llywodraeth Cymru bennu'r Rheoliadau drafft newydd sy'n adlewyrchu'r uwchraddiad i'r ffigyrau ariannol neu unrhyw newid technegol arall gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw 8

DRAFT

neu 9 Rhagfyr 2014. Rhaid rhoi'r rheoliadau hyn gerbron ar ffurf ddrafft am 20 diwrnod gwaith heb gyfrid dyddiau gwyliau a chael trafodaeth lawn cyn iddynt ddod i rym. Ar gyfer 2014/15, ni ddaeth y rheoliadau diwygiol hyn i rym hyd 15 Ionawr 2014 a disgwylir y bydd amserlen debyg yn berthnasol ar gyfer 2015/16.

**2.5** Gan fod y Cyngor llawn yn cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2014 i benderfynu ar ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol am 2015/16, cynigir bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn cael yr awdurdod i wneud trefniadau gweinyddol fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu adolygiadau technegol yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

**3. Effaith y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol**

**3.1** Yn **Atodiad B** rhoddir gwybodaeth, ystadegau a gwerthoedd i'r Cyngor llawn ynglŷn ag effaith ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2014/15. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol i'r Cyngor llawn wrth iddo ystyried a ddylai adolygu neu newid ei gynllun cyfredol, i'r graddau -

- Y gall ddefnyddio'r data hwn i fesur patrymau (a oedd yn gywir ym mis Medi 2014) yn erbyn y waelodlin (yn gywir yn Rhagfyr 2012) pan gynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran nodweddion a ddiogelir ac achosion o freguster;

- Er mwyn dechrau deall yr effaith a gaiff y cynllun ar drigolion yr Ynys mewn perthynas ag oed, pobl anabl, rhyw a hîl;

- I'r dyfodol, i hysbysu dealltwriaeth y Cyngor llawn o gostau tebygol gwahanol gynlluniau posibl ac o gostau tebygol rhoi diogelwch llawn neu rannol i rai grwpiau penodol o gleientiaid a phobl fregus. Ar hyn o bryd, rhaid darparu 100% o ostyngiad dan y Rheoliadau ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy ac y bydd angen mae'n debyg i'r rhai sy'n derbyn Gostyngiad rhannol yn y Dreth Gyngor dalu mwy ac y bydd rhaid i'r rhai sydd ar hyn o bryd yn derbyn gostyngiad 100% gyfrannu am y tro cyntaf tuag at eu costau Treth Gyngor ar ôl Ebrill 2017.

**3.2** Ers y data gwaelodlin a sefydlwyd yn Rhagfyr 2012 gellir nodi'r patrymau canlynol ar yr Ynys yng nghyswllt ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:-

- **Llwyth Achosion:** ers Rhagfyr 2012 i Medi 2014 - gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y llwyth achosion o 6.3% (6,960 i lawr i 6,525). Mae hyn yn newid patrwm y blynyddoedd diwethaf lle 'roedd y llwyth achosion wedi cynyddu'n lleol ac yn genedlaethol flwyddyn ar flwyddyn;

- **Oed:** roedd y dadansoddiad yn Rhagfyr 2012 yn awgrymu ychydig o gynnydd o ran nifer yn yr hawliadau gan bobl o Oedran Gweithio o gymharu â hawliadau gan Bensiynwyr (rhaniad 51.5%/48.5%). Erbyn Medi 2014, roedd hyn wedi cynyddu rhyw fymryn (rhaniad 51.7%/48.3%);

- **Oed:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd â phlant yn hawlio Gostyngiad Treth Gyngor yn Rhagfyr 2012 yn 21.9% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014 roedd hyn wedi cynyddu i 24.2%;

- **Anabledd:** roedd y dadansoddiad o aelwydydd sy'n derbyn y Gostyngiad Treth Gyngor lle derbyniwyd taliadau anabledd penodol (sef Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig neu Uchel), Lwfans Gweini, Cyfran Cefnogaeth o Lwfans, Cefnogaeth Cyflogaeth, Budd-dal Analluogrwydd a Thaliadau Annibyniaeth Personol) yn Rhagfyr 2012 yn 39.3% o'r llwyth achosion. Erbyn Medi 2014 roedd wedi mynd i lawr i 34.8%.

- **Rhyw:** roedd yr achosion a oedd yn ymwneud â rhieni sengl a oedd yn ferched yn Rhagfyr 2012 yn 92.5% (13.3% o'r llwyth achosion). Erbyn Medi 2014 roedd yn 92.3% (14.3%);

- **Hîl:** Ym mis Rhagfyr 2012 fe gyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol ei Chyfrifiad ar gyfer Mawrth 2011 a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth yn Ynys Môn. Gofynnir i'r holl hawlwyr sy'n cwblhau ffurflen gais Gostyngiad Treth Gyngor lenwi gwblhau arolwg ethnig gwirfoddol. (Gweler Tabl 6 yn Atodiad B am ddadansoddiad yn seiliedig ar yr arolwg gwirfoddol o gymharu â ffigyrau Cyfrifiad Mawrth 2011).

**3.3** Gofynnir i'r Cyngor llawn nodi ymhellach y gwelwyd gostyngiad sylweddol yn ystod hanner cyntaf 2014/15 yn nifer y bobl a oedd yn hawlio Lwfans Chwilio am Waith mewn Canolfannau Byd Gwaith unigol ar yr Ynys, gyda'r ganran yn amrywio rhwng 25% i 30%. Mae'r gostyngiad yn y rhai a oedd yn hawlio ei Ostyngiad Treth Gyngor yn ystod yr un cyfnod yn llawer llai (3.5%). Mae hawlwyr o oed gweithio'n dal i fod yn gymwys am Ostyngiad rhannol yn y Dreth Gyngor oherwydd incwm isel. Mae hawliadau mwy safonol yn cael eu prosesu sy'n golygu fod gwaith ychwanegol ynghlwm â phrosesu'r hawliadau oherwydd mae'n rhaid gwirio incwm - o gymharu â rhai ar fudd-daliadau pasport fel Lwfans Chwilio am Waith (yn Seiliedig ar Incwm), Budd-dal Incwm, Lwfans Cefnogi Cyflogaeth (yn Seiliedig ar Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi gwirio'r incwm.

**3.4** Am y 6 mis cyntaf yn 2014/15, roedd 864 o hawlwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd wedi eu prosesu gyda 7,989 o newidiadau mewn amgylchiadau wedi'u prosesu. Yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i brosesu hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau oedd 7.3 diwrnod o fewn y cyfnod hwn.

## 4. Adolygu'r cynllun cyfredol

**4.1** Gan nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau, ar wahân i uwchraddiadau ariannol a newidiadau technegol sy'n cael eu defnyddio yn y rheoliadau, yr unig ystyriaethau sydd ar gael i'r Cyngor llawn i'w hadolygu ac i benderfynu arnynt, yw ym maes y disgresiwn lleol a ganiateir dan y Rheoliadau. O dan y Rheoliadau, mae gan y Cyngor ddisgresiwn lleol llawn yn y meysydd hyn yn unig:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bersonau ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith lle y maent eisoes wedi bod yn derbyn gostyngiad treth gyngor a ddaw i ben wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith h.y. **"Cyfnod Talu Estynedig";**

  Mae'r costau uwch a amcangyfrifir am 2015/16 yn gysylltiedig ag ymestyn y cyfnod statudol estynedig yn amrywio rhwng £7,000 am bythefnos hyd at £21,000 am 6 wythnos y tu hwnt i'r 4 wythnos safonol. O dan y rheolau blaenorol ar gyfer Budd-dal Treth Gyngor, nid oedd unrhyw ddarpariaeth arbennig yn bodoli i ganiatáu ar gyfer hyn a wnaeth y Cyngor ddim defnyddio'r disgresiwn hwn pan gyflwynwyd y cynllun Gostyngiadau Treth Gyngor. Argymhellir felly na ddylid adolygu'r cynllun ac ymestyn y cyfnod talu am 2015/16.

- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel a fydd yn cael ei ddisytyru pan yn gweithio allan incwm yr hawliwr h.y. **"Gweddwon Rhyfel"**;

  Mae gan y Cyngor llawn eisoes gynllun lleol sy'n caniatáu hyblygrwydd ychwanegol yn y maes hwn. Argymhellir y dylai hyn barhau. Amcangyfrifir y bydd y gost i'r Cyngor yn £24,000 yn 2015/16. Argymhellir, felly, bod y swm ychwanegol sy'n cael ei ddiystyru dan y cynllun lleol cyfredol yn parhau heb ei ddiwygio am 2015/16.

- Y gallu i ôl-ddyddio'r Gostyngiad Treth Gyngor o safbwynt hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad h.y. **"Ôl-ddyddio Hawliadau"**.

DRAFT

Mae'r Cyngor llawn bob amser wedi bod o'r farn bod 3 mis yn gyfnod digonol i ganiatáu ôl-ddyddio Gostyngiad Treth Gyngor i hawliadau gan bensiynwyr a rhai o oed gweithio. Mae'r Cyngor llawn o'r farn bod digon o rwydweithiau cefnogaeth ar gael i hawlwyr. Mae yna lawer iawn o ansicrwydd am y gost debygol pe bai cynllun lleol o'r fath yn cael ei fabwysiadu ac argymhellir felly na ddylid adolygu'r cynllun drwy ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i 3 mis yn ystod 2015/16.

**4.2** Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau dewisol hyn.

**4.3** O dan Atodiad 1 ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2014/15, mae'r Cyngor llawn yn manylu ar y weithdrefn lle y gall hawliwr newydd wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun. Isod ceir dadansoddiad o'r dull ymgeisio a ddefnyddir gan hawlwyr newydd am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2014 a 30 Medi 2014.

| Dull Ymgeisio | | | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|---|---|
| **A.** | **Ceisiadau electronig** | | | |
| | **i.** | Drwy apwyntiad yn y Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 155 | 18.0% |
| | **ii.** | Drwy apwyntiad dros y ffôn i'r Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau, Llangefni | 93 | 10.8% |
| | **iii.** | Drwy apwyntiad yng Nghanolfan J E O'Toole, Caergybi | 50 | 5.8% |
| | **iv.** | Ceisiadau ar-lein drwy'r wefan | 288 | 33.3% |
| | **v.** | Dogfennau mewnbwn yr Adran Gwaith a Phensiynau | 223 | 25.8% |
| | **vi.** | Gyda 3ydd partion yr "ymddiriedir" ynddynt e.e. Gwasanaethau Tai, CAB | 7 | 0.8% |
| **B.** | **Ceisiadau ar bapur** | | 6 | 0.6% |
| **C.** | **Dull yr ymgeisio ddim yn wybyddus gan na chafodd ei gofnodi'n briodol** | | 42 | 4.9% |
| | **CYFANSWM** | | **864** | **100.0%** |

Argymhellir hefyd bod y gweithdrefnau hyn yn parhau'r un fath ac nad ydynt yn cael eu hadolygu ar gyfer 2015/16.

## 5. Goblygiadau Ariannol a Risg

**5.1** Yn Setliad Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol 2015/16, mae Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o £5,228,000 wedi ei ddyfarnu i'r Cyngor i gwrdd â chostau ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor am 2015/16.

**5.2** Y gwariant cyfredol (diwedd Chwarter 2 2014/15 yw £5,238,447). Bydd dau ffactor yn 2015/16 yn cael effaith ar y gwariant ar y cynllun:-

- Gostyngiad parhaus o rhwng 2% - 3% yn y llwyth achosion yn ystod 2015/16;
- Y bwriad i godi'r Dreth Gyngor gan 5% am 2015/16.

**5.3** Ar y gorau bydd y gwariant a amcangyfrifir ar y cynllun yn £5,335,358 (gan dybio gostyngiad 3% mewn llwyth achos a 5% cynnydd yn y Dreth Gyngor) ac ar ei waethaf gwariant amcangyfrifiedig o £5,500,369 (yn tybio na fydd gostyngiad llwyth achos a 5% o gynnydd yn y Dreth Gyngor).

**5.4** Felly disgwylir diffyg a fydd, fe amcangyfrifi, rhwng £107k a £272k yng nghyllid grant y bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn gyfrifol amdano. Mae hyn yn seiliedig ar i'r Cyngor llawn ail-fabwysiadu'r cynllun cyfredol heb unrhyw newidiadau newid.

DRAFT

**5.5** Y prif risg i'r rhagamcaniad yw bod y llwyth achosion yn ystod 2015/16 yn codi o ganlyniad i leihad yn nhŵf yr economi. Am bod 1% o gynnydd llwyth achosion mae'r gost ychwanegol i'r Cyngor rhwng £50,000 a £55,000.

## 6. Goblygiadau Cyfreithiol

**6.1** Mae'n ofynnol i'r Cyngor sefydlu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dan y Rheoliadau Anghenion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cynllun arall i'w ddefnyddio pe na bai'r Cyngor yn sefydlu cynllun, mae'r Cyngor, er hynny, â dyletswydd statudol i fabwysiadu ei gynllun ei hun, hyd yn oed pe bai'n dewis peidio â gosod unrhyw un o'r elfennau dewisol.

## 7. Goblygiadau Cydraddoldebau

**7.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau yn dilyn ei ymgynghoriad ar gyfer y Rheoliadau gwreiddiol yn 2012. Mae asesiad lleol o'r effaith ar gydraddoldebau wedi cael ei gynnal ar ran y Cyngor mewn trefniadau ar y cyd ar draws Cymru hefyd mewn perthynas â Rheoliadau 2012 (Rhagfyr 2012, cyhoeddwyd Mawrth 2013) a chafodd hwn ei ddiweddaru ar Medi 2014 ac fel y gwelir yn **Atodiad B**.

## 8. Dogfennau Cefndirol

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth Gyngor ac Anghenion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (W.301)

Y Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Anghenion Rhagnodedig a Chynlluniau diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2015 Rhif ???? (W ???)

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru: Cymariaethau o fewn Cymru o Nodweddion a Ddiogelir ac Amlder Bregusrwydd Mawrth 2013 - Simon Horsington and Associates Ltd, 2013

## 9. Argymhellion

- Nad yw'r Cyngor llawn yn adolygu nac yn disodli ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol gyda chynllun arall;

- Bod y Cyngor llawn yn ffurfiol yn mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol am flwyddyn ariannol 2015/16. **(gweler Atodiad A)**

- Bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod yn rhoi awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau wneud trefniadau gweinyddol llawn fel bod yr holl newidiadau blynyddol ar gyfer uwchraddio ffigyrau ariannol neu ddiwygiadau technegol mewn unrhyw reoliad neu reoliadau sy'n diwygio yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Cyngor ac am bob blwyddyn ddilynol.

**GERAINT JONES**
**RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU** **10 TACHWEDD 2014**

DRAFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2015/16

# Cynllun Penodedig ar gyfer Hawlwyr sy'n Bensiynwyr a phobl nad ydynt yn Bensiynwyr

DRAFT

**Rhagarweiniad**

Ers 1 Ebrill 2013, mae Budd-dal y Dreth Gyngor, sef y dull cyfredol o gynorthwyo teuluoedd incwm isel gyda'u Treth Gyngor, wedi cael ei ddiddymu. Cafodd ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ar 19 Rhagfyr 2012 gwnaed rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru, sef "Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 Rhif 3144 (C.316)" **(Rheoliadau Rhagnodedig)** a "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 Rhif 3145 (C.317)" **(Rheoliadau Diofyn)**. Ar 22 Ionawr 2013 gwnaed rheoliadau diwygiedig pellach gan Lywodraeth Cymru "Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a Rheoliadau Diofyn)(Cymru)(Diwygio) 2013 **(Rheoliadau Diwygiedig).**

Roedd y Rheoliadau Rhagnodedig yn cynnwys cymal machlud. O ganlyniad i'r cymal yma, roedd y rheoliadau a nodwyd uchod ond yn berthnasol am y flwyddyn ariannol 2013/14. Dan y cymal yma roedd yn ofynnol i adolygu'r rheoliadau a dod a rhai newydd ymlaen erbyn 1 Ionawr 2014 gan Weinidogion Cymru. Petai rheoliadau newydd ddim yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y dyddiad yma, ni fyddai darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'w gweithredu yng Nghymru ar ôl 31 Mawrth 2014.

Ar 26 Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynlluniad Cymru ddwy set o reoliadau newydd : Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013 **("Rheoliadau Diofyn")** a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 **("Rheoliadau Rhagnodedig")**. Mae'r rhain ar gael ar :

**Rheoliadau Diofyn**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made

**Rheoliadau Rhagnodedig**

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made

**Rheoliadau Diwygiedig**

Ar ?? Ionawr 2015, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru set pellach o reoliadau diwygio, yn bennaf i uwchraddio'r ffigyrau ariannol yn unol â chynnydd yng nghostau byw ac i roi sylw i nifer o fân-bwyntiau technegol– Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rheoliadau Rhagnodedig a'r Cynlluniau Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2015 (Rheoliadau Diwygio). Mae'r rhain ar gael ar :-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/??/contents/made

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu prif nodweddion y cynllun y dylai pob Cyngor yng Nghymru ei fabwysiadu. Felly, mae cyfrifoldeb ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu cynllun. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2015 ar gyfer 2015/16.

Bydd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar Reoliadau Rhagnodedig Llywodraeth Cymru (fel a diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig hyn hefyd yn caniatáu i Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor fabwysiadu cynllun sy'n cynnwys amrediad cyfyngedig o elfennau dewisol i ddarparu cefnogaeth bellach ar gyfer y Dreth Gyngor. Mewn achosion lle mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu elfennau dewisol ychwanegol, nodir yr elfennau dewisol hyn yn y ddogfen hon.

Oni fydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cynllun erbyn 31 Ionawr 2015, yna daw'r cynllun diofyn i rym yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diofyn. Fodd bynnag, ni fedr Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw ddisgresiwn oni bai ei fod yn mabwysiadu ei gynllun ei hun dan y Rheoliadau Rhagnodedig.

**Gofynion y Cynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Cymeradwyodd cyfarfod o Gyngor llawn Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 1 Rhagfyr 2014 mewn perthynas â'r flwyddyn yn cychwyn ar 1 Ebrill 2015. Mae'n nodi, yn unol â'r Rheoliadau Rhagnodedig:-

- Categorïau o bobl sydd â hawl neu sydd ddim â hawl i ostyngiad
- Y gostyngiadau y mae pobl ym mhob categori â hawl iddynt
- Gofynion gweithdrefnol y Cynllun:-

**1.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i ymgeisio am ostyngiad dan y cynllun.

**2.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod o ran hawl person i ostyngiad dan y cynllun neu swm unrhyw ostyngiad y mae gan y person hawl iddo.

**3.** Y weithdrefn y dylai person ei dilyn i gyflwyno cais i awdurdod am ostyngiad dan adran 13A (1) (c) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

DRAFT

**Cynllun Lleol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar ofynion fel y cânt eu nodi yn Rheoliadau Llywodraeth Cymru sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 Rhif 3029 (C. 301) (Rheoliadau Rhagnodedig) a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 Rhif ?? (C. ?). Mae'r Rheoliadau Rhagnodedig a'r rheoliad diwygio ar gael ar:-

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/??/contents/made

I grynhoi:-

**Rhan 1 y Rheoliadau Rhagnodedig**:

Mae'n cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir yn y cynllun hwn.

**Rhan 2 y Rheoliadau Rhagnodedig: gofynion y cynllun mewn perthynas ag awdurdodau bilio yng Nghymru (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Beth y mae'n rhaid i'r cynllun a fabwysiedir gan Gyngor Sir Ynys Môn ei gynnwys - dosbarthiadau neu bersonau, gostyngiadau a gofynion gweithdrefnol y cynllun.

**Rhan 3 y Rheoliadau Rhagnodedig: Dosbarthiadau o bersonau sydd â hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

**Pensiynwyr** sydd yng Nghategorïau A i B.

**Eraill nad ydynt yn bensiynwyr** sydd yng Nghategorïau C i D.

**Rhan 4 y Rheoliadau Rhagnodedig: Categorïau o bobl na ddylid eu cynnwys dan y cynllun hwn (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Categorïau o bobl sydd i gael eu heithrio o'r cynllun hwn, gan gynnwys pobl sy'n cael eu trin fel rhai nad ydynt yn byw ym Mhrydain Fawr a phobl y mae rheolau mewnfudo'n berthnasol iddynt.

Personau y mae eu cyfalaf yn uwch na £16,000.

Personau sy'n absennol am gyfnod o eiddo.

Personnau sy'n fyfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 1 i 5 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn yng nghyswllt pensiynwyr (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Yn Atodlenni 1 i 5, nodir y rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar hawl pensiynwyr i gael gostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad hwnnw dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y mae incwm a chyfalaf ar gyfer pensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl am ostyngiad dan y cynllun hwn.

DRAFT

**Rhan 5 ac Atodlenni 6 i 10 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Mae Atodlenni 6 i10 yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwyster pobl nad ydynt yn bensiynwyr i ostyngiad ynghyd â swm y gostyngiad dan y cynllun hwn ac uchafswm y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Maent hefyd yn nodi sut y bydd incwm a chyfalaf ar gyfer pobl nad ydynt yn bensiynwyr yn cael eu trin wrth weithio allan eu hawl i ostyngiad dan y cynllun hwn, gan gynnwys mewn achosion lle mae person nad yw'n bensiynwyr neu ei b/phartner yn cael credyd cynhwysol.

**Atodlen 11 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Nodi'r darpariaethau ar gyfer defnyddio'r cynllun hwn yn achos myfyrwyr.

**Rhan 5 ac Atodlenni 12 i 14 y Rheoliadau Rhagnodedig: materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn mewn perthynas â phob ymgeisydd h.y. pensiynwr a phobl nad ydynt yn bensiynwyr (fel a ddiwygiwyd gan y Rheoliadau Diwygio**

Mae Atodlen 12 yn ymwneud â materion gweithdrefnol y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'n disgrifio'r weithdrefn y dylai person ei dilyn wrth wneud cais am ostyngiad yn y Dreth Gyngor dan y cynllun hwn. Mae Atodiad 1 y cynllun hwn yn rhoi manylion ynghylch sut y gall person wneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn am ostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Mae Atodlen 12 hefyd yn disgrifio sut y gall person apelio yn erbyn penderfyniadau penodol a wneir gan Gyngor Sir Ynys Môn dan y cynllun hwn.

Gan fod Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio dulliau cyfathrebu electronig mewn perthynas â chyflwyno cais a rhoi gostyngiad, ceir yn Atodlen 12 fanylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys dan y cynllun hwn.

Mae Atodlenni 13 a 14 yn disgrifio pwy a fedr wneud cais dan y cynllun hwn, dyddiad cyflwyno'r cais, ôl-ddyddio ceisiadau i bensiynwyr a phobl eraill, diwygio a thynnu ceisiadau yn ôl a'r dystiolaeth a'r wybodaeth y mae eu hangen gyda'r cais. Mae Atodlenni 13 a 14 hefyd yn nodi'r gofynion dan y cynllun hwn o ran y wybdaeth y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ei darparu pan yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad a'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y rhybudd o benderfyniad.

**Rhan 6 y Rheoliadau Rhagnodedig (fel y diwygwyd gan y Rheoliadau Diwygio)**

Gosod allan y darpariaethau trosiannol fydd yn berthnasol i bobl sy'n derbyn, neu sydd wedi gwneud cais i dderbyn, gostyngiad o dan y cynlluniau gostyngiadau cyfredol, pan fydd y cynlluniau newydd yn dod i rym.

**Elfennau dewisol y cytunwyd arnynt gan Gyngor Sir Ynys Môn Cyngor i ddarparu cefnogaeth ar gyfer y Dreth Cyngor yn ychwanegol at y gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau Rhagnodedig a fabwysiadwyd gan y Cyngor**

Mae Ynys Môn wedi penderfynu mabwysiadu Cynllun Dewisol Lleol ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel. Manylir ar hyn yn Atodiad 2 lle nodir yr elfennau hynny o bensiynau o'r fath a fydd yn cael eu hanwybyddu fel incwm. Mae hwn yn gymorth at y Dreth Gyngor sy'n ychwanegol at y gefnogaeth sy'n ofynnol yn statudol yn y Rheoliadau Rhagnodedig. Mae'r Cynllun Dewisol hwn ar gyfer Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel yr un fath â'r Cynllun a oedd mewn grym ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor.

Hwn fydd yr unig ddisgresiwn lleol y bydd Ynys Môn yn ei ddefnyddio dan ei Gynllun Lleol ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

DRAFT

**ATODIAD 1**

**Manylion am y drefn lle y gall rhywun wneud cais am ostyngiad o dan y cynllun**

Rhaid i bob person wneud cais am Ostyngiad Dreth Gyngor, oni bai bod rheoliadau pellach gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel arall. Bydd hon yn ffurflen electronig neu'n Ffurflen Gais bapur ar gyfer Gostyngiad Dreth Gyngor a rhaid ei danfon i un o'r swyddfeydd dynodedig canlynol.

**A.** Gellir gwneud cais electronig fel a ganlyn: -

- **i.** Drwy apwyntiad i fynychu i gwblhau'r ffurflen yn Swyddfeydd yr Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226) neu i ymweld â chleientiaid bregus yn eu cartref i gwblhau'r ffurflen gais;
- **ii.** Drwy apwyntiad i lenwi'r ffurflen dros y ffôn yn Swyddfeydd Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, LL77 7TW (Ffôn 01248 752658/752226);
- **iii.** Drwy apwyntiad i gwblhau'r ffurflen yng Nghanolfan JE O'Toole, Sgwâr Trearddur, Caergybi, LL65 1NB (Ffôn 01407 760208);
- **iv.** Yn electronig drwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn
- **v.** Dogfen Fewnbwn Awdurdod Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau (LAID) a Gwybodaeth Cwsmer Awdurdod Lleol (LAC) lle maent yn datgan bwriad i hawlio Gostyngiad Treth Gyngor.
- **vi.** Yn electronig ar unrhyw ffurf arall y bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn penderfynu arno yn y dyfodol.

**B.** Gellir cyflwyno cais ar bapur drwy'r dulliau canlynol: -

Trwy gyfrwng ffurflenni cais a gymeradwywyd a dderbyniwyd gan y Swyddogaeth Adnoddau Ynys Môn, Adain Refeniw a Budd-daliadau yn ei swyddfeydd dynodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW neu'r Swyddfa Budd-daliadau, Ystafell 3, 2il Lawr, Neuadd y Dref, Stryd Newry, Caergybi, LL65 1HU.

DRAFT

**ATODIAD 2**

**CYNLLUN LLEOL - ANWYBYDDIAD PENSIWN RHYFEL**
**Atodlen 4, Rheoliad 30 - Pensiynwyr**
**Atodlen 9, Rheoliad 31 – Heb fod yn Bensiynwyr**

| ELFENNAU UNIGOL | DIYSTYRU INCWM |
|---|---|
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | Ydyw<br>(£ 10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel | Ydyw<br>(£ 10 statudol, 100% Lleol) |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (cyn 1973 - SPAL) | Ydyw<br>(2015/16) 100% statudol, £ ??. ?? yn amodol ar uwchraddio * blynyddol) |
| Atodiad Anghyflogadwyedd | Na |
| Lwfans ychwanegol ar gyfer Gwraig (a delir gydag Atodiad Anghyflogadwyedd) | Nac oes |
| Lwfans Gweini Cyson | Oes (statudol) |
| Lwfans Analluedd | Na |
| Lwfans 'Cysuron' | Na |
| Lwfans Oed | Na |
| Lwfans ar gyfer Galwedigaeth o Safon Is | Na |
| Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Anabledd Dwys Eithriadol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Galwedigaethol Anabledd Difrifol | Ydyw (statudol) |
| Lwfans Plant | Na |

* gosodir gan y Lluoedd Morwrol, y Fyddin a'r Awyrlu ac ati. Gorchymyn Pensiwn Gwasanaeth "Anabledd a Marwolaeth" 2006. Nid yw'r ffigyrau uwchraddio ar gyfer 2015 /16 wedi dod i law eto.

DRAFT

**ATODIAD B**

**Tabl 1: Llwyth Achosion 30 Medi 2014**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiad Treth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| **Canran a Ddyfarnwyd** | | | | |
| Dyfarniad llawn Gostyngiad Treth Gyngor h.y. 100% | 4,884 | 74.9% | £4,254,960 | 81.2% |
| Dyfarniad rhannol Gostyngiad Treth Gyngor h.y. llai na 100% | 1,641 | 25.1% | £983,487 | 18.8% |
| **Math o Hawliad** | | | | |
| Hawliadau wedi'u Pasportio* | 4,657 | 71.4% | £3,970,648 | 75.8% |
| Hawliadau heb eu Pasportio h.y. Hawliadau Safonol | 1,868 | 28.6% | £1,267,799 | 24.2% |
| **Bandiau Treth Gyngor** | | | | |
| Band A (Gostyngiad Anabl) | 11 | 0.2% | £5,924 | 0.1% |
| Band A | 2,002 | 30.7% | £1,303,773 | 24.9% |
| Band B | 2,071 | 31.7% | £1,572,994 | 30.0% |
| Band C | 1,196 | 18.3% | £1,017,037 | 19.4% |
| Band D | 751 | 11.5% | £726,169 | 13.9% |
| Band E | 357 | 5.5% | £414,842 | 7.9% |
| Band F | 110 | 1.7% | £155,282 | 3.0% |
| Band G | 23 | 0.4% | £36,243 | 0.7% |
| Band H | 3 | 0.0% | £4,317 | 0.1% |
| Band I | 1 | 0.0% | £1,866 | 0.0% |
| **Ardaloedd Praeseptio Lleol** | | | | |
| Caergybi | 1,758 | 26.8% | £1,252,230 | 23.9% |
| Llangefni | 566 | 8.6% | £431,065 | 8.2% |
| Amlwch | 476 | 7.3% | £386,100 | 7.4% |
| Porthaethwy | 229 | 3.5% | £190,353 | 3.6% |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 228 | 3.5% | £214,027 | 4.1% |
| Rhosyr | 220 | 3.4% | £186,513 | 3.6% |
| Biwmares | 193 | 3.0% | £163,774 | 3.1% |
| Y Fali | 185 | 2.8% | £146,567 | 2.8% |
| Llanfairpwll | 158 | 2.4% | £132,997 | 2.5% |
| Llanfaelog | 157 | 2.4% | £131,701 | 2.5% |
| Llannerch-y-medd | 147 | 2.3% | £117,742 | 2.3% |
| Llanbadrig | 141 | 2.2% | £117,346 | 2.3% |
| Llanfair yn Neubwll | 132 | 2.0% | £108,348 | 2.1% |
| Bodedern | 113 | 1.7% | £91,558 | 1.8% |
| Llanfihangel Esceifiog | 112 | 1.7% | £94,029 | 1.8% |
| Llangoed | 106 | 1.6% | £88,203 | 1.7% |
| Trewalchmai | 104 | 1.6% | £85,778 | 1.6% |
| Pentraeth | 102 | 1.6% | £84,407 | 1.6% |
| Llaneilian | 100 | 1.5% | £93,305 | 1.8% |
| Bodorgan | 98 | 1.5% | £80,627 | 1.5% |
| Mechell | 96 | 1.5% | £85,928 | 1.6% |
| Llanidan | 95 | 1.5% | £73,108 | 1.4% |
| Moelfre | 91 | 1.4% | £73,725 | 1.4% |
| Rhosybol | 83 | 1.3% | £73,833 | 1.4% |
| Cwm Cadnant | 83 | 1.3% | £73,187 | 1.4% |
| Bodffordd | 81 | 1.2% | £68,186 | 1.3% |
| Aberffraw | 80 | 1.2% | £57,816 | 1.1% |
| Bryngwran | 78 | 1.2% | £59,818 | 1.1% |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 69 | 1.1% | £69,135 | 1.3% |
| Trearddur | 64 | 1.0% | £64,210 | 1.2% |

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Praeseptio Lleol (parhad0** | | | | |
| Cylch y Garn | 54 | 0.8% | £47,745 | 0.9% |
| Llanddaniel | 50 | 0.8% | £40,606 | 0.8% |
| Llanddyfnan | 49 | 0.8% | £48,503 | 0.9% |
| Llanfaethlu | 48 | 0.7% | £42,824 | 0.8% |
| Llanddona | 47 | 0.7% | £41,171 | 0.8% |
| Llanfachraeth | 44 | 0.7% | £34,859 | 0.7% |
| Tref Alaw | 44 | 0.7% | £45,893 | 0.9% |
| Rhoscolyn | 20 | 0.3% | £18,851 | 0.4% |
| Penmynydd | 17 | 0.3% | £14,539 | 0.3% |
| Llaneugrad | 8 | 0.1% | £7,839 | 0.2% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceiswyr Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorth Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

### Tabl 2: Hawliadau gan Bobl o Oed Gweithio a Phensiynwyr 30 Medi 2014

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau Treth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| **Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 3,373 | 51.7% | £2,614,664 | 49.9% |
| Oed Pensiynwr | 3,152 | 48.3% | £2,623,783 | 50.1% |
| **Hawliadau pasport yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,477 | 38.0% | £2,022,768 | 38.6% |
| Oed Pensiynwr | 2,180 | 33.4% | £1,947,880 | 37.2% |
| **Di-basport h.y. hawliadau safonol yn ôl Grŵp Oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 890 | 13.6% | £591,896 | 11.3% |
| Oed Pensiynwr | 978 | 15.0% | £675,903 | 12.9% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Cwpl** | | | | |
| Oed Gweithio | 856 | 13.1% | £800,361 | 15.3% |
| Oed Pensiynwr | 879 | 13.5% | £861,477 | 16.4% |
| **Cyfansoddiad Aelwydydd yn ôl Grŵp Oed - Sengl** | | | | |
| Oed Gweithio | 2,508 | 38.4% | £1,811,362 | 34.6% |
| Oed Pensiynwr | 2,282 | 35.0% | £1,765,247 | 33.7% |

* Hawliadau a basbortiwyd yw Lwfans Ceiswyr Gwaith (yn seiliedig ar Incwm), Cymorth Incwm, Lwfans Cymorth Cyflogaeth (yn gysylltiedig ag Incwm) a Gwarant Credyd Pensiwn lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi dilysu incwm.

**Tabl 3: Oed – Aelwydydd gyda chyfrifoldeb am Blant**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gostyngiadau Treth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwyd – y statws** | | | | |
| Cwpl | 1,735 | 26.6% | £1,661,839 | 31.7% |
| Sengl | 4,790 | 73.4% | £3,576,608 | 68.3% |
| **Cyfansoddiad Aelwyd – plant** | | | | |
| **Dim plant** | **4,953** | **75.8%** | **£3,989,654** | **76.1%** |
| 1 plentyn | 705 | 10.8% | £524,678 | 10.0% |
| 2 plentyn | 463 | 7.1% | £370,843 | 7.1% |
| 3 phlentyn | 267 | 4.1% | £230,441 | 4.4% |
| 4 plentyn | 92 | 1.4% | £82,303 | 1.6% |
| 5 plentyn | 36 | 0.6% | £29,867 | 0.6% |
| 6 phlentyn | 3 | 0.1% | £3,670 | 0.1% |
| 7 plentyn | 1 | 0.0% | £727 | 0.0% |
| 8 plentyn | 2 | 0.0% | £2,284 | 0.0% |
| 9 plentyn | 3 | 0.1% | £3,980 | 0.1% |
| **Cyplau â phlant – oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 539 | 8.3% | £493,408 | 9.4% |
| Oed Pensiynwr | 21 | 0.3% | £22,840 | 0.4% |
| **Sengl â phlant – oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 988 | 15.2% | £710,818 | 13.7% |
| Oed Pensiynwr | 24 | 0.4% | £21,727 | 0.4% |
| **Cyplau â phlant o dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 247 | 3.8% | £219,194 | 4.2% |
| Oed Pensiynwr | 0 | 0.0% | £0 | 0.0% |
| **Sengl â phlant o dan 5 oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 424 | 6.5% | £309,996 | 5.9% |
| Oed Pensiynwr | 3 | 0.1% | £3,390 | 0.1% |

**Tabl 4: Aelwydydd lle dderbyniwyd taliadau anabledd penodol***

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| **Cyfansoddiad Aelwyd yn ôl grŵp oed** | | | | |
| Oed Gweithio | 941 | 14.4% | £812,092 | 15.5% |
| Oed Pensiynwr | 1,323 | 20.4% | £1,157,364 | 22.1% |

***** Elfen Gofal y Lwfans Byw i'r Anabl (Isel, Canolig, Uchel), Lwfans Gweini, Elfen Gefnogaeth y Lwfans Cefnogaeth Gwaith, Lwfans Analluedd a Thaliadau Annibyniaeth Personol.

**Tabl 5: Dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir: Rhyw, rhiant Sengl**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| **Aelwyd Rhiant Sengl - Merched** | | | | |
| Oed Gweithio | 916 | 14.0% | £655,842 | 12.5% |
| Oed Pensiynwr | 17 | 0.3% | £15,472 | 0.3% |
| **Aelwyd Rhiant Sengl - Dynion** | | | | |
| Oed Gweithio | 71 | 1.1% | £54,976 | 1.1% |
| Oed Pensiynwr | 7 | 0.1% | £6,255 | 0.1% |

**Tabl 6: Cefndir Ethnig Ynys Môn**

| Tarddiad Ethnig | Cyfrifiad Mawrth 2011 | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Medi 2014 |
|---|---|---|
| Prydeinig Gwyn | 96.6% | 835 (86.0%) |
| Gwyn arall | 1.7% | 126 (12.0%) |
| Etifeddiaeth gymysg | 0.8% | 7 (0.7%) |
| Asiaidd (Pawb) | 0.7% | 1 (0.1%) |
| Du (Pawb) | 0.1% | 2 (0.2%) |
| Arall (Pawb) | 0.3% | 0 (0.0%) |
| **CYFANSWM** | | **971*** |

* Ar 30 Medi 2014 roedd 971 o hawlwyr byw wedi cwblhau eu harolwg ethnig yn wirfoddol

**Tabl 7: Gostyngiad Treth Gyngor ychwanegol a ddyfarnwyd dan y cynllun dewisol lleol**

| Disgrifiad | Rhif | Canran | Gwerth | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd** | **6,525** | **100%** | **£5,238,447** | **100%** |
| Pensiwn Gweddwon Rhyfel (Cyn 73) | 1 | 0.0% | £964 | 0.0% |
| Pensiwn Anabledd Rhyfel | 25 | 0.4% | £19,935 | 0.4% |

DRAFT

This page is intentionally left blank